Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk


Porth Meudwy

# Pen Llŷn

*"Man arbennig iawn yw Pen Llŷn ac Eryri ( y rhanbarth mynyddig yng ngogledd orllewin Cymru a pharc cenedlaethol) yn fy marn i, rhan unigryw o Gymru. Mae yno bopeth, traethau tywodlyd, cildraethau creigiog a threfi glan môr sy'n ferw o ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd."*

**RHYS ROBERTS, Swyddog Llwybr Arfordir Cymru.**

## Pwllheli i Aberdaron

Ardal wyllt a hardd gyda phenrhyn sy'n ymestyn i Fôr Iwerddon. Cynigia dreftadaeth gyfoethog ac unigryw o ffermydd traddodiadol, porthladdoedd bychain, traethau tywodlyd hir, baeau, clogwyni môr a phentiroedd.

Mwynhewch y tridiau hyn o antur drwy aros dros nos ym Mhwllheli, neu gallwch aros ar hyd y ffordd ger yr anheddiad ar ddiwedd pob dydd.

## Cyrraedd

Ceir trên uniongyrchol sy'n stopio i Bwllheli o Birmingham a'r Amwythig.

## Aros dros nôs

Tref arfordirol brysur yw Pwllheli ar ymyl Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, a man delfrydol i archwilio'r ardal.

## Llety

Mae amrywiaeth o lety ar gael.

**pwllheli.org.uk/stay.html**

I aros ar hyd y ffordd:

**visitsnowdonia.info/accommodation-snowdonia-and-llyn-north-wales**

## Bwyta Allan

Ceir dewis gwych o fwytai, caffis, tafarnau a chludfwyd ym Mhwllheli.

**hafanpwllheli.co.uk/more/eat.html**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Pen Llŷn

## Cyngor ar y Tir

Mae Llwybr Arfordir Cymru'n amrywio'n helaeth dan droed, o draethau tywod gwastad i lwybrau pen clogwyn garw. Dylech wisgo dillad sy'n briodol i'r tir ac i ragolygon y tywydd. Am ragor o gyngor ar ddiogelwch, ewch i'n gwefan:

**walescoastpath.gov.uk/plan-your-visit/wales-coast-path-safety-advice/?lang=en**

## Anhawster

Mae gofyn lefel gymedrol o ffitrwydd a hyder.

## Cludiant Cyhoeddus

Daw manylion cludiant gyda phob taith gerdded, ond cofiwch fwrw golwg ar amseroedd yma cyn ichi gychwyn: Travel Line Cymru **traveline.cymru** neu National Rail **nationalrail.co.uk** or neu Trafnidiaeth Cymru **tfwrail.wales**

## Bws – Bws Arfordir Llŷn

Mae'r gwasanaeth bws tymhorol hwn yn berffaith i'r rheini sy'n cerdded Llwybr Arfordir Cymru, sy'n mynd 5 diwrnod yr wythnos o fis Ebrill i fis Hydref o Drefor i Lanbedrog. Mae modd i deithwyr wneud arwydd i gael eu codi o unrhyw fan hwylus a diogel ar hyd llwybr y bws. **bwsarfordirllyn.co.uk/**


## Cludo Bagiau

Os ydych am aros mewn llety ar hyd y ffordd, gwnewch y siwrnai'n rhwyddach drwy ddefnyddio gwasanaeth cludo i drosglwyddo'ch bagiau i'ch cyrchfan nesaf.

**walescoastpath.gov.uk/plan-your-visit/planning-carrying-help/?lang=cy**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Pwllheli i Abersoch 9 milltir

***Mwynhewch draethau hir euraidd, celfyddydau, treftadaeth a golygfeydd godidog dros Fae Aberteifi.***

## Dechrau

Gwnewch eich ffordd i lan y môr gyda'r Marina ar y chwith er mwyn ymuno â Llwybr Arfordir Cymru. Trowch i'r dde a dilyn y llwybr wrth ymyl y traeth tywodlyd hir tuag at Lanbedrog, gyda'i gytiau traeth lliwgar enwog. Ceir yma siop a chaffi lle byddwch efallai am fwynhau hufen iâ! Yn ddefnyddiol, ceir toiledau cyhoeddus gerllaw, sy'n cael adolygiadau gwych!

Mae Llwybr Arfordir Cymru'n mynd heibio i Oriel Plas Glyn y Weddw, sef canolfan gelfyddydau a threftadaeth hyfryd mewn plas Fictoraidd Gothig gradd II trawiadol a chanddo erddi hardd a chaffi, sy'n lle delfrydol i gasglu'ch cinio. Mae'n swatio o dan bentir Llanbedrog gyda golygfeydd ysblennydd ac, yn well byth, mae ymweliad yn rhad ac am ddim!

I fwrw ymlaen â'r daith, dringwch drwy'r goedwig o'r oriel i ymweld â'r "Dyn Tun", sef cerflun metel sy'n eistedd ar ben bentir Mynydd-Tir-y-Cwmwd ac sy'n gwylio dros y traeth islaw. Ydyn, mae'r grisiau ychydig yn serth ond mae'r golygfeydd o'r brig yn gwneud iawn am yr ymdrech! Dilynwch y pentir a mwynhewch y golygfeydd.

Wrth ddisgyn, dilynwch y llwybr i lawr, trowch i'r chwith i isffordd a dilyn y llwybr i'r traeth tywodlyd glân o'r enw Traeth Chwarel. Arhoswch ar y traeth hwn yr holl ffordd i Abersoch gyda golygfeydd eang dros Fae Ceredigion.

Os yw amser ac egni'n caniatáu, bydd gennych lond gwlad o bethau i'w gwneud yn Abersoch. I'r egnïol iawn yn eich plith, mae hwylio, bordhwylio, sgïo jet a chanŵio. I'r rheini sy'n hapus i fyfyrio dan gerdded, ceir caffi uwchben y traeth, ardal bicnic, siop, a thoiledau cyhoeddus.

## Dychwelyd i Bwllheli

### Bws

Mae llwybr bws uniongyrchol (rhif 18) yn ôl i Bwllheli sy'n cymryd rhyw chwarter awr. Mae'r amseroedd yn amrywio a chyn gadael Pwllheli mae'n werth bwrw golwg ar yr amserlen i weld amser y bws olaf yn ôl.


**traveline.cymru**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk

# Abersoch i Borth Neigwl 9.5 milltir

*Mae'r morlin yma yn ogoneddus, cewch eich amgylchynu gan olygfeydd o fynyddoedd Eryri.*




## Dechrau

Dechreuwch wrth draeth Borth Fawr yn Abersoch, sy'n ddelfrydol i deuluoedd. A'r môr o'ch blaenau, trowch i'r dde. Mae Llwybr Arfordir Cymru'n mynd tua'r mewndir ar draws y cwrs golff, y tu ôl i'r twyni sy'n ymylu'r traeth ond os yw'r llanw allan mwynhewch y traeth euraidd nes cyrraedd y llithrfa ym Machroes.

Gan edrych yn ôl ar y man hwn, fe welwch bentir gwyrdd mynydd Tir-y Cwmwd.

Wrth lithrfa Machroes fe welwch gaffi traeth a thoiledau y gallech fanteisio arnynt (am fod gweddill y daith yn weddol anghysbell). Ychydig cyn iard gychod ym Machroes, lle daw'r llwybr at gyffordd, trowch i'r dde ac yn fuan iawn, i'r chwith, drwy ardal goediog am ychydig bach. Parhewch ar y llwybr a fydd yn ymylu'r traeth eto cyn mynd tua'r mewndir am ychydig bach. Yn fuan iawn, byddwch yn troi i'r chwith eto gan ddychwelyd i'r morlin lle byddwch yn aros am weddill y daith.

Mae'r morlin yma'n arbennig o odidog, a chefndir o fynyddoedd Eryri o'i gwmpas, a'r llwybr yn dringo fry uwchben y môr. Os byddwch yn lwcus, bydd yr eithin yn eu blodau a hyd yn oed ar ddiwrnod llwyd mae'r môr yn tywynnu'n las ac yn gartref i ddolffiniaid a morloi llwyd. Allan i'r môr mae ynysoedd Sant Tudwal. Ar un ohonynt saif goleudy, ac ar un arall olion priordy.

Ymlaen â'r llwybr fry uwchben y môr yma a byddwch yn agored i'r tywydd felly cofiwch bacio'n briodol ar gyfer y rhagolygon. Dilynwch y llwybr o gwmpas y pentir nesaf ac fe gyrhaeddwch draeth Porth Ceiriad. Traeth mwy anghysbell na Borth Fawr yw hwn, ac mae llwybr yn arwain i lawr iddo ac, os bydd y tywydd yn ffafriol, mae'n lle dymunol i gael picnic. Mwynhewch yr heddwch a gynigir gan y darn hwn o'r arfordir wrth ichi barhau heibio i siambr gladdu hynafol fechan yn Nhrwyn Llech-y-doll.

Ar ôl dod o gwmpas y pentir nesaf, bron iawn y mae'r môr yn llenwi'r olygfa - dyma Borth Neigwl, bae helaeth sy'n hafan i syrffwyr!

Yma daw'r llwybr yn fwy anghysbell byth, gan gydio yn llethr y bryn drwy lwybr cul gyda chlogwyn serth islaw. Gall y llwybr fod yn greigiog ac yn arw mewn mannau felly cymerwch ofal. Ar ôl croesi dwy nant fechan, ewch ymlaen i lawr y bryn lle mae'r llwybr yn awr yn dilyn clogwyn is i lawr i'r traeth.

Dilynwch Lwybr Arfordir Cymru i Dwyni Pentowyn a throwch i'r dde i'r maes parcio ac yna i'r dde ar y ffordd i Lanengan, heibio i dafarn y pentref lle gallwch ddal y bws yn ôl i Bwllheli.

## Cludiant i fan cychwyn y daith

### Bws

Ewch ar fws rhif 18 o'r orsaf fysiau ym Mhwllheli i Abersoch. Mae'n rhyw chwarter awr o siwrnai. Mae'r amseroedd yn amrywio felly cofiwch fwrw golwg ar yr amserlen cyn cychwyn.

## Dychwelyd i Bwllheli


### Bws

Ewch ar fws rhif 18 o Ganolfan, Ffordd Llanengan, Llanengan yn ôl i Bwllheli. Mae'n rhyw 25 munud o siwrnai. Mae'r amseroedd yn amrywio ac nid yw'r bysiau'n rheolaidd, felly cofiwch holi am amser y bws olaf yn ôl i Bwllheli cyn cychwyn.

**traveline.cymru**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Porth Neigwl: Llanengan i Aberdaron 12.5 milltir

***Mwynhewch ehangder traeth Porth Neigwl, maenordy Plas yn Rhiw a thaith gerdded hyfryd heibio i wrthgloddiau hanesyddol o gylchoedd cytiau.***

## Dechrau

O adael y bws yn Llanengan, ewch i'r maes parcio ym Mhorth Neigwl a chymryd Llwybr Arfordir Cymru i'r dde, tua'r mewndir. Dilynwch y llwybr igam-ogam drwy dir ffermio ffrwythlon nes cyrraedd ffordd gul. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd; mae'n weddol gul ond nid yw'n para'n hir a dyma'r modd o gyrraedd y darn nesaf o'r daith a fydd yn ysbrydoli ac yn swyno.

Daw'r ffordd â chi i Blas yn Rhiw, sydd yn rhannol yn faenordy o'r 16eg ganrif mewn gerddi helaeth sydd bellach yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Adferwyd y tŷ o orffennol esgeulus gan dair chwaer, a'i prynodd ym 1938. Mae'r golygfeydd o'r tir a'r gerddi ar draws Bae Ceredigion yn syfrdanol ac yn werth ymweld â nhw.

Ymlaen â chi o Blas yn Rhiw, gan adael y ffordd sy'n troi i'r dde a pharhau ar y llwybr trac ag arwydd tua'r môr.

Tir mynediad yw'r darn hyfryd digyffwrdd hwn ac mae'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ewch heibio i wrthgloddiau hanesyddol o gylchoedd cytiau wrth i'r llwybr ddringo gan bwyll, gan adael ehangder Porth Neigwl yn lleihau yn y pellter.

O ael y bryn, fe welwch forlin arall o'ch blaenau ond ewch ymlaen ar hyd y llwybr ac o gwmpas pentir olaf eich taith. Copa rhostir caregog yw Mynydd Penarfynydd a'r môr y naill ochr iddo, ac ar ddiwrnod clir gallwch weld yr Wyddfa a Chadair Idris.

Yn awr, mae'r Llwybr yn troi tua'r mewndir cyn ymuno â heol am ychydig wedyn picio i Borth Ysgo, cildraeth pert, cysgodol o dywod a graean bras. Yma ewch heibio i hen waith manganîs. Mae rhaeadr Pistyll y Gaseg y tu ôl i'r traeth, sydd ar ei gorau ar ôl iddi dywallt y glaw.

Dilyna darn nesaf y daith ben y clogwyni uwchben rhagor o raeadrau, ogofâu a dirgelion daearegol. Clogwyni gweddol uchel sydd yma, ac ni allwch gyrraedd y traeth ond, yn y pellter, gallwch weld Aberdaron, eich cyrchfan terfynol. Yn y man hwn, mae'r llwybr yn troi tua'r mewndir eto, yn croesi ffordd i ymuno â thrac sy'n troi i'r chwith, wrth ymyl Afon Daron sy'n cwrdd â'r môr yn hen bentref pysgota bach Aberdaron. Ar ôl treulio ychydig o amser ar y traeth hyfryd yno, ewch i ddal y bws yn ôl I Bwllheli.

## Cludiant i fan cychwyn y daith

### Bws

Ewch ar fws rhif 18 o Bwllheli i Ganolfan, Ffordd Llanengan, Llanengan. Mae'n rhyw 25 munud o siwrnai. Mae'r amseroedd yn amrywio ac nid yw'r bysiau'n rheolaidd felly cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn cychwyn

**traveline.cymru**

## Dychwelyd i Bwllheli

### Bws

Ewch ar fws rhif 17B o'r Swyddfa Bost yn Aberdaron yn ôl i Bwllheli. Mae'n rhyw 40 munud o siwrnai. Mae'r amseroedd yn amrywio ac nid yw'r bysiau'n rheolaidd felly cofiwch holi am amser y bws olaf yn ôl i Bwllheli cyn ichi gychwyn

**traveline.cymru**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk


Braich y Pwll


Plas yn Rhiw


Aberdaron

# Pen Llŷn Atyniadau ychwanegol tra byddwch yn aros yn yr ardal

### Plas yn Rhiw

Mae Llwybr Arfordir Cymru'n mynd heibio i'r maenordy braf hwn sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'i ardd addurnol a'i olygfeydd ysblennydd. Achubwyd y tŷ o esgeulustod ac fe'i hadferwyd â chariad gan y tair chwaer Keating, a'i prynodd ym 1938. Mae'r golygfeydd o'r tir a'r gerddi ar draws Bae Ceredigion ymhlith y mwyaf ysblennydd ym Mhrydain. Tŷ o'r 16eg ganrif ydyw gydag ychwanegiadau Sioraidd, ac yn yr ardd ceir llawer o brysglwyni a choed blodeuo hardd, gyda gwelyau wedi'u fframio gan wrychoedd bocs a llwybrau glaswellt. Ysblander ym mhob tymor.

**nationaltrust.org.uk/plas-yn-rhiw**

### Ysgol Hwylio Abersoch

Llogwch ddingi, caiac neu bedalo ac archwilio Bae Abersoch yn erbyn cefndir o olygfeydd anhygoel o gadwyn mynyddoedd prydferth Eryri. .

**facebook.com/AbersochSailingSchool/**

### Ynys Enlli

Ynys Enlli, ynys Gymreig wyllt ddwy filltir oddi ar Ben Llŷn gyda bywyd gwyllt toreithiog, morlin dramatig a hanes tra diddorol. Ceir tripiau cwch am 3-4 awr o ymweliad â'r ynys, sy'n gadael o Borth Meudwy ger Aberdaron.

**bardsey.org**

### Oriel Plas Glyn y Weddw

Ceir canolfan gelfyddydau a threftadaeth ysblennydd yn Llanbedrog ar benrhyn prydferth Llŷn. Mewn plas Fictoraidd Gothig gradd II trawiadol, dyma le perffaith i weld a phrynu celf Gymreig gyfoes, mwynhau perfformiad theatr awyr agored neu, yn syml, fwynhau cacen gartref flasus.

**oriel.org.uk**